

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg yn ogystal â'r Gymraeg.

This document is available in English as well as Welsh.



Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu

Adroddiad blynyddol ar gydymffurfedd â diogelu data a

llywodraethiant gwybodaeth

1 Ebrill 2025 – 31 Mawrth 2026

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg yn ogystal â'r Gymraeg.

This document is available in English as well as Welsh.

Cynnwys

1. Cyflwyniad	2
2. Polisiâu a gweithdrefnau	2
3. Cydymffurfedd â diogelu data	3
4. Achosion o dorri diogelwch data	5
5. Rheoli cofnodion	5
6. Deddf Rhyddid Gwybodaeth	5
7. Ceisiadau am fynediad at ddata gan y testun	6
8. Hyfforddiant	6
Rhagolwg	6

1. Cyflwyniad

Mae gan y comisiynydd heddlu a throseddu, fel rheolydd data Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh), gyfrifoldeb statudol i sicrhau bod data personol yn cael ei brosesu'n gyfreithlon, yn deg ac yn dryloyw, yn unol â gofynion Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU) a Deddf Diogelu Data 2018.

Yn ogystal, rhaid i SCHTh gyflawni ei rhwymedigaethau mewn perthynas â rhyddid gwybodaeth, ceisiadau am fynediad at ddata gan y testun, ac arferion rheoli gwybodaeth a chofnodion priodol. Mae proses effeithiol o lywodraethu gwybodaeth yn hanfodol i gynnal ymddiriedaeth y cyhoedd, diogelu data personol, a sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei thrin yn gyfreithlon, yn dryloyw ac yn ddiogel.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o gydymffurfedd â gofynion diogelu data a llywodraethu gwybodaeth o fewn Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh) Dyfed–Powys ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026.

2. Polisiâu a gweithdrefnau

Mae rhai polisiâu a gweithdrefnau'n cael eu datblygu a'u gweithredu ar y cyd gan SCHTh a Heddlu Dyfed–Powys. Pan fo trefniadau ar y cyd yn bodoli, mae'r ddau sefydliad wedi ymrwymo i sicrhau bod data personol yn cael ei brosesu yn unol â GDPR y DU, gyda rolau, cyfrifoldebau a mesurau diogelwch clir ar waith.

Rhestrir isod bolisiâu a gweithdrefnau sy'n eiddo i SCHTh ac a adolygwyd yn ystod cyfnod adrodd 2025/26.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg yn ogystal â'r Gymraeg.

This document is available in English as well as Welsh.

- Polisiâu a gweithdrefnau rhyddid gwybodaeth SCHTh
- Polisi rheoli cofnodion SCHTh
- Polisi gwirfoddolwyr
- Polisi ac amserlen cadw SCHTh
- Polisi gwneud penderfyniadau

Pan fo'n briodol, cyhoeddir polisiâu'n allanol ar wefan y comisiynydd heddlu a throseddu.

3. Cydymffurfedd â diogelu data

Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data

Mae Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data yn elfen allweddol o fframwaith rheoli risgiau SCHTh, gan gefnogi'r gwaith o nodi a lliniaru risgiau diogelu data posibl yn gynnar. Mae'r Swyddog Diogelu Data yn darparu goruchwyliaeth a chynghor er mwyn sicrhau dull cyson a chydymffurfiol.

Data sy'n eiddo i SCHTh

Yn ystod y cyfnod hwn, ni chwblhawyd unrhyw Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data gan na nodwyd unrhyw weithgareddau prosesu newydd na newidiadau i brosesu presennol a oedd yn gofyn am yr asesiadau hyn o dan reolaethau diogelu data'r sefydliad.

Data a rennir gan yr heddlu a gwasanaethau a gomisiynwyd

Ymgwymerwyd â nifer fach o Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data ar gyfer mentrau yn ymwneud â phrosiectau ariannu a gwasanaethau a gomisiynwyd. Ar gyfer y prosiectau hyn, mae'r Prif Gwnstabl yn gweithredu fel rheolydd data ar gyfer data gweithredol y ffynhonnell. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, bu oedi wrth gwblhau a chymeradwyo'r asesiadau hyn yn derfynol. O ganlyniad, cydnabuwyd hyn fel risg ac mae'n cael ei hadlewyrchu yng nghofrestrau risgiau corfforaethol SCHTh a'r heddlu. Mae camau gweithredu ar waith i gryfhau prosesau a sicrhau bod Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data yn cael eu cynnal yn gyson yng nghan cynharaf prosiect a gweithgarwch comisiynu.

Cwblhawyd un asesiad ar gyfer Panel Craffu Cymunedol SCHTh lle byddai aelodau'r cyhoedd yn adolygu fideos camerâu corff o achosion oedd wedi cau i asesu a oedd defnydd swyddogion o bwerau'r heddlu yn rhesymol ac yn gymesur.

Cofnod o weithgareddau prosesu (ROPA) a'r gofrestr asedau gwybodaeth

Yn unol â gofynion GDPR y DU, mae SCHTh yn cynnal cofnod o weithgareddau prosesu (ROPA) i ddogfennu'r data personol y mae'n ei brosesu a'r sail gyfreithiol ar gyfer y gweithgarwch prosesu hwnnw. Mae'r cofnod hwn yn destun adolygu a diweddarau parhaus er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn fanwl gywir ac yn adlewyrchu gweithgareddau cyfredol.

Mae'r gofrestr asedau gwybodaeth hefyd dan adolygiad ac, ar hyn o bryd, mae'n cael ei halinio a'i chroeswrio yn erbyn y cofnod o weithgareddau prosesu i wella cysondeb, gwella goruchwyliaeth o

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg yn ogystal â'r Gymraeg.

This document is available in English as well as Welsh.

asedau data, a chefnogi'r gwaith o lywodraethu gwybodaeth a sicrhau cydymffurfedd yn gyffredinol.

Hysbysiadau preifatrwydd

Mae SCHTh yn cynnal [hysbysiad preifatrwydd](#) i gefnogi tryloywder yn y ffordd y mae data personol yn cael ei gasglu, ei ddefnyddio a'i rannu, yn unol â gofynion GDPR y DU. Cynhelir adolygiad wedi'i gynllunio yn ystod y cyfnod adrodd nesaf er mwyn sicrhau bod yr hysbysiad preifatrwydd yn parhau i fod yn fanwl gywir ac yn gyfredol a'i fod yn cyd-fynd â gweithgareddau prosesu cyfredol, gan gynnal cydymffurfedd parhaus drwy hynny â rhwymedigaethau tryloywder.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg yn ogystal â'r Gymraeg.

This document is available in English as well as Welsh.

4. Achosion o dorri diogelwch data

Yn ystod 2024/25, cofnodwyd un tor diogelwch data. Roedd y tor diogelwch yn ymwneud â neges e-bost a anfonwyd i Sancus Solutions a oedd yn cynnwys dogfen a oedd yn cynnwys manylion unigolion nad oeddent yn rhan o achos cwyn penodol. Sancus Solutions yw'r sefydliad sy'n ystyried adolygiadau cwynion SCHTh ac felly anfonir yr holl wybodaeth yn ddiogel at unigolyn enwebedig; o ganlyniad, roedd y risg yn isel. Hysbysodd yr unigolyn y Swyddog Diogelu Data a gofynnwyd i Sancus ddileu'r wybodaeth. Nid oedd y tor yn bodloni'r gofynion i gael ei gyfeirio at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

5. Rheoli cofnodion

Mae gwaith rheoli cofnodion yn sicrhau bod cofnodion swyddogol o werth hanesyddol, ariannol a chyfreithiol yn cael eu nodi a'u cadw, a bod cofnodion diangen yn cael eu gwaredu mewn modd amserol yn unol â chanllawiau sefydledig a deddfwriaeth a nodwyd. Mae gwaith rheoli cofnodion da hefyd yn sicrhau y gall SCHTh gydymffurfio â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a deddfwriaeth diogelu data yn ogystal â cheisiadau gan gyrff rheoleiddio ac archwylwyr eraill. Gall rheoli cofnodion yn wael arwain at wneud penderfyniadau gwael yn seiliedig ar wybodaeth annigonol neu anghyflawn, niwed i enw da, methu â thrin gwybodaeth gyfrinachol gyda'r lefel ofynnol o ddiogelwch, a chostau diangen oherwydd bod cofnodion yn cael eu cadw am gyfnod hwy nag y mae angen.

Yn ystod y cyfnod hwn, sefydlwyd gweithgor er mwyn sicrhau bod pob adran yn y swyddfa yn rhan o'r broses adolygu cofnodion. Datblygwyd offeryn olrhain cynnydd ar gyfer camau gweithredu sy'n rhestru ffeiliau/ffolderi sydd wedi'u hadolygu a'u marcio i'w hadolygu neu eu dileu.

6. Deddf Rhyddid Gwybodaeth

Fel corfforaeth undyn, mae SCHTh yn ddarostyngedig i geisiadau rhyddid gwybodaeth ac yn gyfrifol amdanynt. Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn rhoi'r hawl i bawb ofyn am unrhyw wybodaeth gofnodedig sydd gan awdurdod cyhoeddus. Mae'r hawl hon yn ymwneud â gwybodaeth gofnodedig yn unig, gan gynnwys gwybodaeth a gedwir ar gyfrifiaduron, mewn negeseuon e-bost ac mewn dogfennau printiedig neu ysgrifenedig â llaw, yn ogystal â delweddau, recordiadau fideo a sain. Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn gosod dyddiad cau statudol o 20 diwrnod gwaith i awdurdodau cyhoeddus ymateb i geisiadau am wybodaeth.

Yn ystod y cyfnod hwn, daeth 52 o geisiadau rhyddid gwybodaeth i law yn y flwyddyn ariannol 2025/26, sef cynnydd o bump o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

O'r 52 o geisiadau rhyddid gwybodaeth a ddaeth i law, roedd angen ymateb gan SCHTh ar 31 ohonynt. Nodwyd bod angen i'r heddlu ystyried y 21 cais sy'n weddill, a rhoddwyd cyngor ar sut i gyflwyno cais rhyddid gwybodaeth yn uniongyrchol i Heddlu Dyfed–Powys. O'r ceisiadau a reolwyd gan SCHTh, ymatebwyd i 90% ohonynt o fewn yr amserlen statudol o 20 diwrnod gwaith. Roedd y categorïau o geisiadau yr oedd gan SCHTh yr wybodaeth ar eu cyfer yn cynnwys:

Adroddiad Blynnyddol ar Gydymffurfedd SCHTh
2025/2026

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg yn ogystal â'r Gymraeg.

This document is available in English as well as Welsh.

- Gwasanaethau a gomisiynir
- Cyllid i sefydliadau allanol / grwpiau ymgyrchu
- Systemau TGCh
- Praeseptau'r heddlu
- Gweithgarwch craffu a gynhaliwyd gan y comisiynydd heddlu
- Camymddwyn a chwynion
- Adnoddau dynol a staffio

7. Ceisiadau am fynediad at ddata gan y testun

Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 hefyd yn rhoi'r hawl i bawb ofyn i sefydliad a yw'n defnyddio neu'n storio eu gwybodaeth bersonol ai peidio. Gall unigolyn hefyd ofyn am gopïau o'i wybodaeth bersonol, ar lafar neu yn ysgrifenedig. Mae'n ofynnol i SCHTh ymateb i unrhyw geisiadau o'r fath o fewn mis.

Yn ystod y cyfnod hwn, daeth naw cais am fynediad at ddata i law, ond nid oedd gan SCHTh wybodaeth am saith o'r ceisiadau ac anfonwyd manylion atynt i gyd yn eu hysbysu sut i wneud eu cais i'r heddlu, a allai fod yn meddu ar yr wybodaeth y gofynnwyd amdani neu beidio.

Roedd SCHTh yn cadw'r wybodaeth ar gyfer dau gais. Roedd yr wybodaeth yn ymwneud â data personol y ceisydd, a chafodd yr wybodaeth ei chasglu a'i hanfon at yr unigolyn o fewn yr amserlen ddeddfwriaethol.

Cwblhawyd yr holl geisiadau o fewn yr amserlen statudol.

8. Hyfforddiant

Yn ystod y cyfnod adrodd, mae SCHTh wedi cynnal ei hymrwymiad i sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi'n briodol mewn materion yn ymwneud â diogelu data a llywodraethu gwybodaeth. Mae hyn wedi cynnwys mynd i ddigwyddiad datblygiad proffesiynol parhaus ar ddiogelu data, hyfforddiant ar lefel Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO) i wella goruchwyliaeth strategol o risgiau gwybodaeth, a hyfforddiant ar hanfodion rhyddid gwybodaeth i gefnogi cydymffurfedd gweithredol â deddfwriaeth hawliau gwybodaeth. Mae'r gweithgareddau hyn wedi cryfhau ymwybyddiaeth a gallu sefydliadol, gan gyfrannu at reoli gwybodaeth yn effeithiol a chefnogi cydymffurfedd â rhwymedigaethau statudol.

Rhagolwg

Yn ystod y flwyddyn nesaf, rhoddir blaenoriaeth i ddatblygu ac adolygu cofnod o weithgareddau prosesu (ROPA) a chofrestr asedau gwybodaeth SCHTh, ar ôl nodi bod angen cryfhau'r maes hwn

Adroddiad Blynnyddol ar Gydymffurfedd SCHTh
2025/2026

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg yn ogystal â'r Gymraeg.

This document is available in English as well as Welsh.

ymhellach. Bydd gwella'r offer llywodraethu craidd hyn yn cefnogi cydymffurfedd â gofynion GDPR y DU, yn gwella dealltwriaeth o weithgareddau prosesu data, ac yn cryfhau'r broses o lywodraethu gwybodaeth a rheoli risgiau yn gyffredinol.

Yn ogystal, bydd SCHTh yn cael archwiliad mewnol i asesu effeithiolrwydd y prosesau a'r gweithdrefnau presennol, gan roi sicrwydd pellach a nodi unrhyw feysydd i'w gwella.

Bydd datblygiad staff parhaus hefyd yn parhau i fod yn un o'r prif bethau y byddwn yn canolbwyntio arno, ac mae hyfforddiant pellach i'w ddarparu i swyddogion diogelu data a byddwn hefyd yn cymryd rhan mewn digwyddiadau datblygiad proffesiynol parhaus cenedlaethol er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chynnal a'i halinio â'r arferion gorau sy'n dod i'r amlwg a disgwyliadau rheoleiddio.